Annwyl Bawb

E-FWLETIN: 2 CHWEFROR 2009

Mae'r mis bach wedi cyrraedd a minnau newydd sylweddoli ei fod yn amser yr e-fwletin nesaf! Dyma fanylu felly ar rai o'r pethau sy'n digwydd ym Morlan dros yr wythnosau nesaf.

CYSGOD Y CAPEL
9.00-4.00, Llun i Gwener, hyd at 28 Chwefror
Arddangosfa ddiweddaraf Gareth Owen sy'n cynnwys paentiadau a gosodiadau sy'n adlewyrchu dylanwad y capel a'r Pethe arno ef fel unigolyn. Cafwyd noson ddiddorol iawn pan agorwyd yr arddangosfa gyda Gareth yn esbonio nifer o'r darnau ac yn sôn am yr hyn sy'n ei ysbrydoli fel arlunydd – a hynny mewn modd difyr a ffraeth. Bydd Gareth yn ôl yma eto am 7.00, nos Iau, 26 Chwefror er mwyn cynnal trafodaeth bellach ar ei waith. Bydd pawb wedi cael cyfle i weld yr arddangosfa erbyn hynny ac ystyried y darnau sy'n cyffwrdd ar destunau y gallwn ni i gyd uniaethu â nhw. Dewch i drafod felly – mynediad am ddim, a chewch baned a chacen!

RHWYDWAITH HEDDWCH A CHYFIAWNDER ABERYSTWYTH
8.15, nos Fercher, 4 Chwefror
Cyfarfod y grŵp lleol sy'n annog heddwch a chyfiawnder trwy ddulliau di-drais.

SESIYNAU GALW I MEWN AR GYFER DARPAR WIRFODDOLWYR
10.00-4.00, dydd Iau, 5 Chwefror a dydd Mawrth, 24 Chwefror
CAVO sy'n trefnu'r sesiynau hyn ar gyfer pobl sy'n chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli neu fudiadau sy'n defnyddio gwirfoddolwyr ac angen help recriwtio gwirfoddolwyr. Byddant yn cael eu cynnal yma ddwywaith y mis tan yr haf.

CYFARFOD AMNEST RHYNGWLADOL
7.30, Nos Iau, 5 Chwefror
Cyfarfod misol nesaf y gangen Amnest leol.

CYMHORTHFA ELIN JONES, AC
2.00-4.00, prynhawn Gwener, 13 Chwefror
Cysylltwch â swyddfa Plaid Cymru am wybodaeth bellach (01970-624516; elin.jones@wales.gov.uk)

DIWRNOD YMWYBYDDIAETH O DWYLL
10.00-3.00, dydd Mercher, 18 Chwefror (cinio bwffe am ddim – ond rhaid archebu lle)
Ydych chi wedi derbyn llythyr yn dweud eich bod wedi ennill y loteri? Ydych chi'n ansicr ynglŷn â gwerthwyr drws i ddrws? Ydy'r Trosglwyddiad Digidol yn eich drysu? Yn ystod y digwyddiad hwn cewch gymorth a chyngor ynglŷn â sut i adnabod twyllwyr ac osgoi bod yn ddioddefwr. Trefnir gan Age Concern Ceredigion. Am ragor o wybodaeth neu i archebu lle, cysylltwch â Samantha Latham (01545-570055 neu saml@ceredigion.gov.uk).

HAND IN HAND
7.00, nos Wener, 20 Chwefror
Cynhyrchiad Theatr Powys o *Hand in Hand*. Penllanw trioleg Chris Cooper yw *Hand in Hand* yn dilyn ôl troed *Morgiana's Dance* ac *Angel*. Stori sydd ar unwaith yn ddoniol, yn ddwys ac eto ychydig bach yn od – yn union fel y plentyn oddi mewn i ni sydd angen gofal tyner. Mae *Hand in Hand* yn addas ar gyfer pawb dros 6 oed – pawb sy'n gwybod bod yn rhaid i ni ddod yn ffrindiau. Tocynnau: £6 (gostyngol: £4) ac ar gael o flaen llaw o'r Morlan.

CYSGOD Y CAPEL: trafodaeth ar ddylanwad capeli a chelf
7.00, nos lau, 26 Chwefror
Trafodaeth bellach ar arddangosfa ddiweddaraf Gareth Owen (gweler uchod).

Os gwyddoch chi am unrhyw rai fyddai â diddordeb mewn cael gwybod am beth sy'n mynd ymlaen ym Morlan, mae pob croeso i chi anfon yr e-fwletin hwn ymlaen atyn nhw.

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-fwletin hwn bellach, rhowch wybod i ni trwy ateb y neges hon ac fe dynnwn eich enw o'r rhestr postio ar unwaith.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr